Cardiff Students' Union
Undeb Myfyrwyr Caerdydd

# Rheoliadau Etholiadau UMPC
# Etholiadau Arweinyddiaeth yr UM 2026

*Sylwch: Mae ymgeiswyr wedi'u rhwymo'n swyddogol gan y rheoliadau hyn o'r eiliad y caiff yr hysbysiad pleidleisio sy'n cadarnhau'r rhestr o ymgeiswyr ei gyhoeddi ar wefan Undeb y Myfyrwyr. Er mwyn i enwebiadau ymgeiswyr gael eu cymeradwyo, rhaid iddynt sicrhau bod eu henwebiad yn cydymffurfio â'r canllawiau a nodir yn y rheoliadau hyn. Pan fydd y rheoliadau hyn yn cyfeirio at 'ymgeiswyr', maent hefyd yn cyfeirio at ymgyrchwyr/timau ymgyrchu (oni bau eu bod yn nodi yn benodol fel arall).*

## Enwebiadau

Rhaid cyflwyno enwebiadau gan ddefnyddio'r ffurflen enwebu sydd ar gael ar yr Hysbysiad Etholiadau a chyn y dyddiad cau enwebiadau a gadarnhawyd yn yr Hysbysiad Etholiadau. Rhaid i unrhyw fyfyrwyr sy'n cael problemau gyda'r broses enwebu roi gwybod am hyn cyn y dyddiad cau enwebiadau drwy e-bostio Tîm Etholiadau Undeb y Myfyrwyr ar elections@cardiff.ac.uk. Ni ellir derbyn unrhyw enwebiadau ar ôl y dyddiad cau lle nad yw'r unigolyn wedi adrodd am y broblem o flaen llaw.

Ar ôl cyflwyno enwebiad, bydd y tîm etholiadau yn e-bostio'r ymgeisydd i gadarnhau bwriad eu henwebiad ac i gadarnhau eu bod yn rhoi caniatâd i'r wybodaeth gael ei rhannu fel rhan o'r broses etholiadol. Os nad yw ymgeisydd yn ymateb yn unol â'r dyddiadau cau a amlinellir yn yr e-bost cadarnhau, gellir tynnu'r unigolyn o'r etholiad ac ystyried eu henwebiad fel anghyflawn.

**Enw ar gyfer y bleidlais a hysbysiad o'r etholiad**
Rhaid i ymgeiswyr ddarparu enw i ymddangos ar y bleidlais a'r hysbysiad pleidleisio wrth gyflwyno eu henwebiad. Dylai'r enw hwn fod naill ai eu henw cofrestredig ar gronfa ddata'r Brifysgol neu enw y maent yn ei ddefnyddio'n aml neu y cyfeirir atynt yn rheolaidd ag ef. Mae hyn er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn gwbl ymwybodol o'r ymgeiswyr y maent yn pleidleisio drostynt a phwy a allai gael eu hethol yn gynrychiolwyr iddynt.

Ni dderbynnir enwau nad ydynt yn cyd-fynd â'r diffiniad hwn a/neu sy'n cynnwys ymadroddion, enwau, neu eiriau sy'n gysylltiedig yn fwy cyffredin ag ymadroddion neu frandiau. Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yw sicrhau eu bod yn cyflwyno enwebiad o fewn y canllawiau a ddarperir, ac maent mewn perygl na chaiff eu henwebiad ei dderbyn os na fyddant yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r tîm etholiadau. Y dyddiad cau ar gyfer darparu enw priodol i ymddangos ar y bleidlais a'r hysbysiad pleidleisio yw'r un amser a dyddiad â'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno enwebiadau.

**Llun**
Mae gan ymgeiswyr y dewis o ddarparu llun i ymddangos ar y bleidlais ar-lein gyda'u henwebiadau. Nid oes rhaid i ymgeiswyr ddarparu llun, ond rhaid i unrhyw lun sy'n cael ei ddarparu ddilyn y canllawiau.

Dylai'r llun fod yn gynrychiolaeth wirioneddol o'r ymgeisydd a chynnwys wyneb yr ymgeisydd. Ni ddylai unrhyw bobl eraill ymddangos o fewn ffocws y llun. Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yw sicrhau eu bod yn cyflwyno llun o fewn y canllawiau a ddarperir, fel arall, mae perygl na chaiff eu llun ei dderbyn os na fyddant yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r tîm etholiadau.

**Cwestiynau Ymgeisydd**
Ar gyfer yr etholiad hwn, gofynnir i bob ymgeisydd ateb tri chwestiwn. Nod y cwestiynau hyn yw helpu myfyrwyr i ddeall y math o gynrychiolydd myfyrwyr y byddai ymgeisydd pe bai'n cael ei ethol a pha flaenoriaethau y byddai ganddo. Nid oes gofyn i ymgeiswyr gyflwyno ateb ar hyn o bryd. Gall ymgeiswyr ddewis cyflwyno atebion ar ôl i'r enwebiadau gau drwy e-bost at elections@cardiff.ac.uk neu beidio â chyflwyno o gwbl. Mae gan ymgeiswyr uchafswm o 600 nod (tua 100 gair) ar gyfer pob cwestiwn. Dyma'r cwestiynau:

C1. Pa brofiad neu sgiliau sydd gennych chi a fydd, yn eich barn chi, yn eich gwneud chi'n gynrychiolydd da?

C2. Sut ydych chi'n bwriadu sicrhau bod lleisiau myfyrwyr yn cael eu clywed a bod eu safbwyntiau'n cael eu hadlewyrchu ar faterion pwysig sy'n effeithio ar eu profiad prifysgol?

C3. Beth fyddai eich 3 prif flaenoriaeth pe baech yn cael eich ethol?

Bydd eich atebion i'r cwestiynau hyn yn ymddangos ar y papur pleidleisio pan fydd myfyrwyr yn pleidleisio a byddant yn cael eu defnyddio drwy gydol cyfnod hyrwyddo'r etholiad yr Undeb. Mae'r atebion hyn yn dod yn lle'r hyn a elwid yn faniffestos o'r blaen. Os ydych chi'n cael unrhyw broblemau wrth gyflwyno'ch atebion isod, anfonwch gopi drwy e-bost at elections@cardiff.ac.uk.

**Meini Prawf Cymhwysedd**
I fod yn gymwys i sefyll yn yr etholiad hwn rhaid i chi fod naill ai'n fyfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd neu'n Swyddog Sabothol presennol (yn unol â dogfennau llywodraethu'r Undeb) ar ddiwedd y cyfnod enwebu.

Mae yna hefyd feini prawf cymhwysedd ychwanegol ar gyfer rhai rolau yn yr etholiad hwn fel y rhestrir isod. Lle nad yw swydd wedi'i rhestru isod nid oes unrhyw ofynion cymhwysedd ychwanegol.

Mewn rhai achosion, mae'r gofynion ychwanegol hyn yn cael ei ddiffinio gan yr ymgeisydd ei hun,

tra bydd eraill yn cael eu gwirio gan Dîm Etholiadau Undeb y Myfyrwyr wrth gadarnhau eich statws myfyriwr a'ch cymhwysedd i sefyll.

| Swydd | Gofynion Cymhwysedd Ychwanegol | Proses Wirio |
|---|---|---|
| Is-lywydd y Gymraeg | Myfyriwr sy'n siaradwr neu'n ddysgwr Cymraeg. | Cael ei ddiffinio gan yr ymgeisydd ei hun |
| Is-lywydd Myfyrwyr Rhyngwladol | Myfyriwr tramor sy'n talu ffioedd a/neu'n fyfyriwr sydd wedi byw neu wedi ymgymryd ag addysg dramor am gyfnod sylweddol o amser. | Cael ei ddiffinio gan yr ymgeisydd ei hun |
| Is-lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig | Myfyriwr sydd wedi astudio neu sydd wrthi'n astudio am radd ôl-raddedig (a addysgir neu ymchwil) ym Mhrifysgol Caerdydd. Heb gynnwys Gradd Meistr integredig. | Cael ei wirio drwy'r Cofnodion/Data Myfyrwyr |
| Is-lywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau | Myfyriwr sy'n aelod o'r Undeb Athletau a/neu'n aelod o dîm chwaraeon sy'n gysylltiedig â'r brifysgol fel IMG | Cael ei wirio drwy borth Aelodaeth yr Undeb (MSL) neu brawf o aelodaeth |
| Is-lywydd Myfyrwyr Israddedig | Myfyriwr sydd â gradd israddedig ym Mhrifysgol Caerdydd neu sy'n astudio am radd israddedig ar hyn o bryd. | Cael ei wirio drwy'r Cofnodion/Data Myfyrwyr |
| Swyddog Myfyrwyr sydd wedi Ymddieithrio | Myfyriwr sy'n hunaniaethu fel rhywun sydd wedi ymddieithrio. Diffinnir myfyriwr sydd wedi ymddieithrio fel myfyriwr sydd heb gyswllt â'i rieni a/neu deulu. | Cael ei ddiffinio gan yr ymgeisydd ei hun |
| Swyddog Myfyrwyr Parc y Mynydd Bychan* | Myfyriwr y mae ei gwrs yn cael ei addysgu ar gampws Parc y Mynydd Bychan. | Cael ei wirio drwy'r Cofnodion/Data Myfyrwyr |
| Swyddog LHDT+ | Rhaid i'r ymgeisydd fod yn fyfyriwr sy'n hunaniaethu fel aelod o'r Gymuned LHDT+. | Cael ei ddiffinio gan yr ymgeisydd ei hun |
| Swyddog LHDT+ (Lle wedi'i gadw ar gyfer myfyriwr traws) | Myfyriwr sy'n hunaniaethu fel person traws. | Cael ei ddiffinio gan yr ymgeisydd ei hun |
| Swyddog Myfyrwyr Hŷn | Myfyrwyr a oedd naill ai'n 21 oed neu'n hŷn ar ddechrau eu gradd Israddedig neu'n 25 oed neu'n hŷn ar ddechrau eu gradd Ôl-raddedig. | Cael ei wirio drwy'r Cofnodion/Data Myfyrwyr |
| Swyddog Myfyrwyr sy'n Rhieni a Gofalwyr | Myfyriwr sydd â chyfrifoldebau rhiant neu ofalu. | Cael ei ddiffinio gan yr ymgeisydd ei hun |

| | | |
|---|---|---|
| Swyddog Menywod | Myfyriwr sy’n hunaniaethu fel menyw. | Cael ei ddiffinio gan yr ymgeisydd ei hun |

**Polisi Addas i Sefyll**
Ar y dudalen nesaf gofynnir i chi gadarnhau eich bod yn 'Addas i Sefyll' ac nad ydych yn gwybod am unrhyw reswm pam y byddech yn anghymwys yn seiliedig ar ein gofynion 'Addas i Sefyll'.

Mae gofynion Addas i Sefyll Undeb y Myfyrwyr yn bodoli i amddiffyn myfyrwyr rhag y niwed parhaus neu bosibl a allai gael ei achosi gan ymgeisydd sydd naill ai dan ymchwiliad neu y mae cwynion wedi'u cadarnhau yn ei erbyn mewn materion sy'n ymwneud ag aflonyddu, ymosodiad a thrais rhywiol.

Wrth gyflwyno eu henwebiad gofynnir i ymgeiswyr gadarnhau a chytuno â'r datganiad canlynol:

“Rwy’n cadarnhau, hyd y gwn i, nad wyf ar hyn o bryd dan ymchwiliad gan y Brifysgol (gan gynnwys unrhyw adran, rhaglen, ysgol, coleg na thîm y Brifysgol), Undeb y Myfyrwyr na’r Heddlu, ac nid oes cwynion wedi’u cadarnhau yn fy erbyn gan y Brifysgol, Undeb y Myfyrwyr na’r Heddlu mewn perthynas â’r materion canlynol:

- Camymddwyn Rhywiol
- Ymddygiad Rhywiol Amhriodol (a all gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i drais, meithrin perthynas amhriodol, camymddwyn ac aflonyddu)
- Cam-drin Perthynas a Pherthnasoedd Afiach
- Treisio
- Ymosodiad Rhywiol
- Trais Rhywiol
- Trais
- Cam-drin
- Aflonyddu
- Bwlio
- Troseddau Casineb”

Ni fydd ymgeiswyr sy'n methu a chadarnhau'r datganiad uchod yn gymwys i sefyll yn yr etholiad hwn. Gofynnir i ymgeiswyr gytuno i'r gofyniad canlynol ar gyfer eu henwebiad hefyd.

“Rwy'n cytuno bod gan Dîm Etholiadau Undeb y Myfyrwyr yr hawl i wirio fy nghymhwysedd i sefyll yn yr etholiad hwn gyda'r Brifysgol a'i hadrannau perthnasol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â'm statws myfyriwr, fy nghydymffurfiaeth â Gofynion Addas i Sefyll Undeb y Myfyrwyr ac unrhyw feini prawf cymhwysedd eraill ar gyfer y rôl yr wyf wedi fy enwebu fy hun ar ei chyfer. Felly, rwyf hefyd yn rhoi'r hawl i'r Brifysgol gadarnhau gyda Thîm Etholiadau Undeb y Myfyrwyr a ydw i'n gymwys ai peidio i sefyll yn yr etholiad hwn ac ar gyfer y swydd a gyflwynwyd gennyf yn unol â'r gofynion a'r meini prawf a nodir.”

Ni fydd ymgeiswyr nad ydynt yn cytuno i Undeb y Myfyrwyr wirio eu cymhwysedd i sefyll yn yr etholiad yn gymwys i sefyll yn yr etholiad hwn.

Os, ôl cadarnhau'r datganiadau hyn, bydd sefyllfa ymgeisydd yn newid (h.y. cael ei hysbysu am ymchwiliad wedyn), cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw hysbysu Tîm Etholiadau Undeb y Myfyrwyr cyn gynted â phosibl.

Dim ond achosion lle mae cwynion/ymchwiliadau wedi'u lansio yn erbyn myfyriwr cyn i'r enwebiadau gau y mae'r polisi Addas i Sefyll yn eu cwmpasu. Pan godir cwynion sy'n ymwneud â'r materion a restrir yn y polisi Addas i Sefyll ar ôl i'r enwebiadau gau ac unwaith y bydd y rhestr o ymgeiswyr wedi'i chyhoeddi, yna bydd safle ymgeisydd yn yr etholiad yn aros yr un fath tan i’r ymchwiliad hwnnw ddod i ben, oni bai bod y corff ymchwilio yn ystyried bod angen gwneud hynny.

Pan fydd ymchwiliad wedi'i gwblhau a chwyn yn wedi’i ei chadarnhau yn erbyn ymgeisydd, mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion a restrir yn y gofynion addas i sefyll, cyn cyhoeddi'r canlyniadau, caiff yr ymgeisydd dan sylw ei dynnu o'r etholiad.

Pan fydd ymchwiliad wedi'i gwblhau a chwyn wedi'i chadarnhau yn erbyn ymgeisydd, mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion a restrir yn y gofynion addas i sefyll, cyn i ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â'i rôl, yna ni fydd yr unigolyn yn gymwys i ymgymryd â'i swydd a byddai'r cyfrif ar gyfer yr etholiad y safodd ynddo yn cael ei ail-gynnal.

Ni fydd Tîm Etholiadau Undeb y Myfyrwyr yn ymchwilio i gwynion sy'n ymwneud â'r materion a restrir yn y gofynion addas i sefyll. Fodd bynnag, byddant yn gweithredu yn unol â'r penderfyniadau a wneir gan y rhai sydd â’r cyfrifoldeb dros ymchwilio i’r cwynion perthnasol ac i bennu eu canlyniadau. Ar ben hynny, nid yw'r polisi hwn yn cwmpasu'r camau a fyddai'n cael eu cymryd yn erbyn swyddog presennol ar ôl iddynt ddechrau eu tymor yn y swydd gan nad yw'r unigolyn bellach wedi'i ddal gan reoliadau’r etholiad.

Os canfyddir ar unrhyw adeg fod ymgeisydd neu unigolyn a etholwyd yn llwyddiannus wedi dweud celwydd neu wedi camarwain Tîm Etholiadau Undeb y Myfyrwyr mewn perthynas â'u cymhwysedd i sefyll, gellir eu gwahardd o'r etholiad neu eu tynnu o'u swydd.

## Adnoddau Ymgeisydd

Bydd Undeb y Myfyrwyr yn defnyddio'r atebion y mae ymgeiswyr yn eu rhoi i’r cwestiynau i gynhyrchu deunyddiau hyrwyddo a fydd yn cael eu rhannu ar-lein a'u gosod o amgylch adeilad Undeb y Myfyrwyr.

Yna gall ymgeiswyr gynhyrchu eu posteri eu hunain a fydd yn cael eu hargraffu gan Undeb y Myfyrwyr. Rhaid e-bostio posteri at Undeb y Myfyrwyr cyn y dyddiad cau a nodir er mwyn sicrhau y

gellir eu dychwelyd i ymgeiswyr cyn dechrau'r cyfnod pleidleisio. Ni chaiff ymgeiswyr argraffu unrhyw ddeunydd hyrwyddo arall nad yw wedi'i ddarparu gan Undeb y Myfyrwyr. Bydd nifer y deunyddiau wedi'u hargraffu/copïau o'r posteri a ddarperir gan Undeb y Myfyrwyr yn cael eu cadarnhau yn ystod y sesiwn friffio i ymgeiswyr.

**Gellir dod o hyd i'r dyddiadau cau allweddol isod:**

| | **Dyddiad Cau** | **Proses Cyflwyno** |
|---|---|---|
| **Cyflwyno Enwebiad** | Dydd Llun 16eg Chwefror, 6yh | Wedi'i gyflwyno drwy'r ffurflen enwebu. |
| **Cyflwyno Llun** | Dydd Llun 23ain Chwefror, 10yb | Wedi'i gyflwyno drwy'r ffurflen enwebu neu drwy e-bost i elections@cardiff.ac.uk |
| **Ymatebion i'r Cwestiynau Ymgeisydd** | Dydd Llun 23ain Chwefror, 10yb | Wedi'i gyflwyno drwy'r ffurflen enwebu neu drwy e-bost i elections@cardiff.ac.uk |
| **Fideo Maniffesto (30 Eiliad)** *Gall ymgeiswyr sy'n Swyddogion Sabothol gyflwyno fideo maniffesto i'w rannu ar gyfryngau cymdeithasol yr Undeb. Ni ddylai'r fideo hwn fod yn hirach na 30 eiliad a dylai gael ei ffilmio mewn un tro parhaus.* | Dydd Llun 23ain Chwefror, 10yb | Wedi'i gyflwyno drwy e-bost i elections@cardiff.ac.uk. Dylid darparu cyflwyniad ar ffurf .MOV neu MP4 a'i ffilmio mewn portread. |
| **Geiriau Ychwanegol ar gyfer Cyfieithu** *Ynghyd â'u cwestiynau i ymgeiswyr, gall ymgeiswyr hefyd ofyn am hyd at 100 o eiriau ychwanegol i'w cyfieithu.* | Dydd Llun 23ain Chwefror, 10yb | Dylid cyflwyno geiriau ychwanegol i'w cyfieithu drwy e-bost i elections@cardiff.ac.uk |
| **Dyddiad Cau Poster / Deunyddiau Print** | Dydd Llun 2il Mawrth, 10yb | Wedi'i gyflwyno drwy e-bost fel PDF i elections@cardiff.ac.uk. Mae angen cyflwyno yn Saesneg ac yn Gymraeg. |

# Ymddygiad yn ystod Etholiadau

Mae etholiadau Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn cael eu llywodraethu gan 4 egwyddor graidd sy'n rheoleiddio ymgyrchu ac ymddygiad ymgeiswyr ar draws pob etholiad. Rydym am i chi fel ymgeiswyr fod yn rhydd i ymgyrchu mewn ffyrdd clyfar a chreadigol heb orfod poeni am gofio rhestrau hir o reolau. Yn hytrach, dylai'r 4 egwyddor arwain penderfyniadau ymgeiswyr ynghylch eu hymgyrch.

Wedi dweud hynny, os bydd ymgeiswyr yn gweithredu'n groes i ysbryd yr egwyddorion maent yn

destun sancsiynau gan y tîm etholiadau. Gall y rhain amrywio o gyfyngu ar wahanol fathau o gyhoeddusrwydd i, mewn achosion eithafol, gael eu tynnu o'r etholiad.

## Yr Egwyddorion

1) Rhaid i fyfyrwyr fod yn rhydd i bleidleisio heb ddylanwad na phwysau gormodol.
2) Rhaid i ymgeiswyr gydymffurfio â'r gyfraith, â pholisïau'r Undeb a'r brifysgol.
3) Dylai ymgeiswyr ganolbwyntio ar eu hymgyrch eu hunain ac felly osgoi ymyrryd ag ymgyrchu ymgeiswyr eraill.
4) Rhaid cyfrif am eitemau a gynhyrchir neu a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer ymgyrch ymgeisydd o fewn y lwfans a roddir yn unol â rheoliadau etholiadol ariannol yr Undeb.

## Sut mae'n gweithio:

I roi syniad i chi o sut mae hyn yn gweithio, dyma rai enghreifftiau o sut caiff yr egwyddorion eu cymhwyso isod:

1) Rhaid i fyfyrwyr fod yn rhydd i bleidleisio heb ddylanwad na phwysau gormodol

Ni chaiff ymgeiswyr sefyll a gwylio myfyrwyr tra byddant yn pleidleisio, gan y byddai hynny'n rhoi pwysau ar y myfyriwr i bleidleisio dros yr ymgeisydd hwnnw. Dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn camu i ffwrdd oddi wrth fyfyriwr unwaith y bydd y broses bleidleisio wedi dechrau. Er y caniateir dosbarthu taflen a losin er mwyn helpu myfyrwyr i'ch cofio ac i wrando arnoch, ni chaniateir cynnig gwobr i fyfyrwyr (boed losin neu rywbeth arall) y byddent yn ei derbyn ar ôl pleidleisio drosoch, gan y byddai hyn yn cael ei ystyried yn ddylanwad gormodol.

2) Rhaid i ymgeiswyr gydymffurfio â'r gyfraith, â pholisïau'r Undeb a'r brifysgol.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi fel ymgeisydd a'ch tîm ymgyrchu, fel bob amser, gydymffurfio â'r gyfraith, rheoliadau'r Brifysgol (megis eu cod ymddygiad, rheoliadau iechyd a diogelwch, gweithdrefnau cyfle cyfartal, cod aflonyddu, difrod i eiddo'r brifysgol, a defnydd o e-bost ac ati) a pholisi'r Undeb (megis ein polisi Dim Goddefgarwch, Rheoliadau Etholiadau ac ati). Gall torri'r polisïau hyn arwain at gamau disgyblu a allai yn ei dro effeithio ar eich statws fel myfyriwr a'ch aelodaeth o'r Undeb, yn ogystal ag effeithio ar eich statws fel ymgeisydd mewn etholiad.

3) Dylai ymgeiswyr ganolbwyntio ar eu hymgyrch eu hunain ac felly osgoi ymyrryd ag ymgyrchu ymgeiswyr eraill.

Mae hyn yn golygu bod disgwyl i ymgeiswyr ganolbwyntio ar eu hymgyrch eu hunain a pheidio â gwneud unrhyw beth a fyddai'n ymyrryd ag ymgyrchu ymgeiswyr eraill. Er enghraifft: mae difwyno deunyddiau cyhoeddusrwydd ymgeiswyr eraill a gwatwar ymgeiswyr eraill ymhlith y gweithredoedd a fyddai'n cael eu hystyried fel torri'r egwyddor hon. Fodd bynnag, mae ymgeiswyr yn dal i fod yn rhydd i drafod rhinweddau maniffesto neu safle ymgeisydd arall ac ni fyddai trafodaeth o'r fath yn

cael ei hystyried fel torri'r egwyddor hon.

4) Rhaid cyfrif am eitemau a gynhyrchir neu a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer ymgyrch ymgeisydd o fewn y lwfans a roddir yn unol â rheoliadau etholiadol ariannol yr Undeb (gweler isod).

## Rheoliadau Ariannol Etholiad

Ni ddylai arian fod yn rhwystr i unrhyw fyfyriwr sy'n dymuno ymgeisio mewn etholiadau. Dyma pam mae'r undeb yn darparu lwfansau ymgyrchu i bob ymgeisydd ac yn cyfyngu gwariant ymgeiswyr i'r swm penodedig.

Mae gan ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr etholiad hwn lwfans o £20.

1) Mae'r lwfans hwn i'w wario ar gostau sy'n gysylltiedig â'ch ymgyrch. Ni allwch wario mwy na'r swm hwn ar eich gweithgaredd ac adnoddau ymgyrchu.

2) Er mwyn hyrwyddo dulliau cynaliadwy o ymgyrchu, **ni chaiff** ymgeiswyr argraffu eu deunyddiau print eu hunain gan gynnwys posteri, taflenni, pamffledi a chardiau busnes. Bydd Undeb y Myfyrwyr yn darparu nifer penodol o gopïau print o'u posteri o wahanol feintiau i bob ymgeisydd. Bydd y rhain yn cael eu graddio i fyny ac i lawr o fersiwn A4 (portread) y bydd ymgeiswyr yn ei ddarparu fel eu maniffesto poster. Bydd manylion union y niferoedd a'r meintiau ar gael i ymgeiswyr ar ôl i'r enwebiadau gau.

3) Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd gyflwyno derbynebau ar gyfer **holl wariant** yr ymgyrch cyn cyfarfod terfynol yr ymgeiswyr ynghyd â ffurflen dreuliau.

4) Lle nad yw'n bosibl cael derbynneb ar gyfer eitem, rhaid i ymgeiswyr gytuno ar werth y farchnad gyda'r tîm etholiadau **cyn** ei defnyddio. Bydd y swm hwn wedyn yn cael ei gyfrif tuag at gyfanswm gwariant yr etholiad.

5) Diffinnir gwariant ymgyrch fel 'unrhyw wariant a wneir gyda'r bwriad o hyrwyddo ymgyrch etholiadol ymgeisydd'. Yr unig eithriadau yw gwisgoedd/dillad a nwyddau traul (Gweler y canllaw ar y dudalen nesaf).

6) Os ydych yn ansicr a ddylid cyfrif eitem fel gwariant ai peidio, cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cael eglurder gan y tîm etholiadau cyn defnyddio unrhyw ddeunyddiau. Dylid cael yr eglurder hwn yn ysgrifenedig drwy e-bost.

7) Ni all ymgeiswyr rannu costau cynhyrchu a defnyddio asedau yn eu hymgyrch. Lle

bynnag y defnyddiwyd eitem i gefnogi ymgyrch ymgeisydd, bydd yr ymgeisydd unigol yn atebol i ddidynnu'r swm llawn o'u gwariant waeth beth fo cyfanswm nifer yr ymgeiswyr sy'n elwa. h.y. mae'n ofynnol i grŵp o ymgeiswyr sy'n ymgyrchu gyda'i gilydd ac yn hyrwyddo ei gilydd gyfrif yn unigol am werth llawn unrhyw adnoddau a ddefnyddir yn eu hymgyrch.

Nid yw'r rhestr isod yn gynhwysfawr.

**Nwyddau ac eitemau nad ydynt yn benodol i'r ymgyrch** (nid oes angen cyfrif amdanynt.)

Rhesymeg: Mae'r rhain i gyd yn eitemau y gellir disgwyl yn rhesymol i ymgeiswyr eu bod yn berchen arnynt cyn penderfynu sefyll yn etholiadau'r Undeb. Mae hyn yn golygu nad hyrwyddo ymgyrchu yw eu prif swyddogaeth, ac felly nid oes angen cyfrif amdanynt.

- Paent, peniau, a deunyddiau crefft
- Hen gardbord, cynfasau, ffabrig neu ddeunyddiau tebyg
- Tâp selotep, pinnau, tac glas, glud, llinyn neu ddeunyddiau gosod eraill
- Anifeiliaid anwes
- Offerynnau cerdd
- Costau car a chludiant
- Gwisgoedd
- Dillad (ac eithrio dillad sydd wedi'u cynhyrchu'n broffesiynol at y prif ddiben o hyrwyddo eich ymgeisyddiaeth)

## Torri Cod Ymddygiad

Ar ôl cael adroddiad am achos o dorri'r rheolau ymddygiad, bydd ymgeiswyr yn cael eu hadrodd i'r tîm etholiadau a fydd yn cynnal ymchwiliad ac yn rhoi sancsiynau os canfyddir bod yr ymgeisydd wedi torri'r rheolau. Mae gan y Swyddog Canlyniadau neu'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau'r hawl i roi sancsiynau a hyd yn oed dynnu ymgeisydd o'r broses etholiad os ydynt yn teimlo bod hynny'n briodol.

## Canllawiau Ychwanegol

O bryd i'w gilydd, gall y tîm etholiadau, gan gynnwys y Swyddog Canlyniadau neu'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau, gyhoeddi canllawiau etholiad pellach. Gall y canllawiau hyn gwmpasu unrhyw elfennau o gynnal etholiad a dylid eu dilyn yn yr un modd â'r rheoliadau hyn. Bydd unrhyw ganllawiau o'r fath yn cael eu rhannu gydag ymgeiswyr drwy e-bost.

## Sut i Wneud Cwyn


Rhaid derbyn pob cwyn o fewn 24 awr i'r digwyddiad ddigwydd a rhaid iddi gyrraedd Tîm Etholiadau Undeb y Myfyrwyr yn ysgrifenedig cyn i'r bleidlais gau.

Mae modd gwneud cwynion drwy e-bostio elections@cardiff.ac.uk a rhaid cynnwys y wybodaeth ganlynol;

- Manylion y digwyddiad (pryd a ble y digwyddodd ac a oedd unrhyw dystion)
- Tystiolaeth
- Pa reoliad sydd wedi'i dorri
- Pa ganlyniad rydych chi'n ei ddisgwyl

Bydd y Swyddog Canlyniadau yn adolygu ac yn dyfarnu ar bob cwyn cyn dechrau'r cyfrif.

**Asesu Cwynion**
Mae'r tîm etholiadau yn asesu pob cwyn yn unigol yn erbyn fframwaith sydd wedi'i safoni i ryw raddau. Drwy ofyn cyfres o gwestiynau mae'r tîm etholiadau yn sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael ei drin yn gyfartal.




## Hygyrchedd
Nod y tîm etholiadau yw gwneud y broses etholiadau mor hygyrch â phosibl. Os oes gennych

unrhyw anghenion hygyrchedd yr hoffech chi roi gwybod i'r tîm etholiadau amdanynt, neu a fyddai'n gofyn am roi eithriadau ar waith, anfonwch e-bost at y tîm etholiadau ar elections@cardiff.ac.uk cyn gynted â phosibl.

## Y Cyfrif

Os na all ymgeisydd a etholwyd yn llwyddiannus ymgymryd â'i swydd ac os bydd yn datgan hynny cyn dechrau ei gyfnod yn y swydd (1af Gorffennaf), gellir ail-gynnal cyfrif yr etholiad heb yr ymgeisydd sydd wedi tynnu'n ôl. Yna bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn yr ailgyfrif yn cael y cyfle i ymgymryd â'r rôl. Dim ond unwaith y gall hyn ddigwydd fesul swydd etholedig.

## Dyddiadau Allweddol

| Digwyddiad Allweddol | Dyddiad |
|---|---|
| **Enwebiadau'r Agor** | Dydd Gwener 16eg Ionawr, 10yb |
| **Enwebiadau'n Cau** | Dydd Llun 16eg Chwefror, 6yh |
| **Dyddiad Cau Cwestiynau Ymgeisydd a Llun** | Dydd Llun 23ain Chwefror, 10yb |
| **Dyddiad Cau Fideo Maniffesto** | Dydd Llun 23ain Chwefror, 10yb |
| **Dyddiad Cau Cais Cyfieithu** | Dydd Llun 23ain Chwefror, 10yb |
| **Dyddiad Cau Cyflwyno Deunyddiau Print** | Dydd Llun 2il Mawrth, 10yb |
| **Casglu Deunyddiau Print** | Dydd Iau 5ed – Dydd Gwener 6ed Mawrth, 10yb-4yp |
| **Digwyddiad Cwestiwn ac Ateb Ymgeiswyr** | Dydd Iau 5ed Mawrth, 6-9yh |
| **Pleidleisio'n Agor** | Dydd Llun 9fed Mawrth, 10yb |
| **Pleidleisio'n Cau** | Dydd Iau 12fed Mawrth, 6yh |
| **Disgwylir y Canlyniadau** | Dydd Gwener 13eg Mawrth |